

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2022-23

Paratowyd yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Cynnwys

| Adran | Teitl |
|---|---|
| 1.0 | **Cyflwyniad** |
| | **1.1** Fframwaith rheoleiddio |
| | **1.2** Llywodraethu ac atebolrwydd |
| 2.0 | **Bodloni ein Safonau'r Gymraeg** |
| | **2.1** Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | **2.2** Safonau llunio polisi |
| | **2.3** Safonau gweithredu |
| | **2.4** Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27 |
| | **2.5** Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32 |
| 3.0 | **Cwynion** |
| 4.0 | **Sgiliau iaith staff** |
| 5.0 | **Darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg** |
| 6.0 | **Camau nesaf** |


Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy, NP23 6DN

# Cyflwyniad

## 1.1 Fframwaith rheoleiddio

Dyma'r wythfed Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg y mae Cyngor Blaenau Gwent wedi'i gyhoeddi. Ysgrifennwyd yr adroddiad o dan **Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011** ac mae'n cwmpasu'r cyfnod ariannol rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Ymhellach, o dan Safonau 158, 164 a 170, mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr iaith Gymraeg sy'n nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gwasanaethau a ddarperir, llunio polisïau a safonau gweithredu. Pwrpas yr adroddiad hwn felly yw darparu gwerthusiad o sut mae ein sefydliad wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## 1.2 Llywodraethu ac atebolrwyddy

Mae gan Gyngor Blaenau Gwent, fel corff cyhoeddus, rôl allweddol wrth helpu i gefnogi ac annog hyrwyddo'r Gymraeg ac mae wedi ymrwymo i gyrraedd ei Safonau Iaith Gymraeg drwy fod yn 'deg, agored, a chroesawgar i bawb drwy weithio gydag, ac ar gyfer ein cymunedau' fel yr amlinellir yn ein **Cynllun Corfforaethol 2022/27**.

Mae Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn cydnabod y Gymraeg fel maes polisi allweddol sy'n ein helpu i gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar wella llesiant pobl a chymunedau lleol.

### Gweithredu'r safonau

Mae'r holl staff yn gyfrifol am helpu i gefnogi'r sefydliad i fodloni Safonau'r Gymraeg ac am gefnogi ac annog hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaethau yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth broffesiynol ar draws y sefydliad i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei ymrwymiadau iaith Gymraeg a'i ofynion statudol.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaed gwaith datblygu i gryfhau trefniadau monitro perfformiad presennol y Cyngor drwy gynllunio busnes. Er enghraifft, bydd yn ofynnol i bob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraniadau a wneir i gefnogi Cydymffurfiaeth â'r Gymraeg a Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27.

## Arweinyddiaeth Wleidyddol a Phroffesiynol

Mae Arweinydd y Cyngor / Aelod Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol yn parhau i fod â chyfrifoldeb portffolio dros yr Iaith Gymraeg. Ystyrir Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg gan y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol, y Cabinet, a'r Cyngor pan fo'n briodol.

Bob blwyddyn cyflwynir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg i'n Tîm Arwain Corfforaethol (TAC). Mae'r i'n Tîm Arwain Corfforaethol yn cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfarwyddwyr, a phob Pennaeth Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys yr holl uwch swyddogion a dyma'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer elfen gorfforaethol y Cyngor.

## Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent

Ailsefydlwyd Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent, grŵp partneriaeth allanol a hwyluswyd gan Fenter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy, yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'r rhwydwaith yn cynnwys sefydliadau ac asiantaethau Cymraeg lleol a meysydd gwasanaeth Cyngor Blaenau Gwent y mae eu gwaith yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr awdurdod. Pwrpas y grŵp hwn yw gweithio ar y cyd i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni a monitro'r **Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27** a'n **Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg** ac i rannu adnoddau, dysgu ac arfer da. Bydd y grŵp hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol Cymraeg y Cyngor.

Mae enghreifftiau o weithgareddau y mae'r grŵp wedi'u cefnogi eleni yn cynnwys mapio gweithgareddau cyfredol ac arfaethedig sy'n cyfrannu at ein helpu i gyflawni'r 3 amcan yn ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27 a'r **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32** (gweler Adran 2.4 ac Adran 2.5 am fwy o wybodaeth).

# Cyflwyniad

## Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol a'r Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn cymeradwyodd y Tîm Arwain Corfforaethol ailsefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol a'r Gymraeg ar gyfer y sefydliad cyfan. Bydd y rhwydwaith yn darparu diweddariadau cynnydd chwarterol i'r Tîm Arwain Corfforaethol ac yn cefnogi gweithredu camau allweddol sy'n ymwneud â chydymffurfio a hyrwyddo'r Gymraeg.

## Y Tîm Trawsnewid Addysg

Mae'r Tîm Trawsnewid Addysg yn adolygu ac yn monitro'r **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg** (WESP) yn fisol; yn darparu adroddiadau tymhorol i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg (WEF) a darparu adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae adroddiadau datblygiad a chynnydd WEF yn cael eu cymryd trwy brosesau gwleidyddol y Cyngor yn flynyddol. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn ffocws allweddol i Fwrdd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Fforwm Derbyniadau.

Ers 2016 bu gan Gyngor Blaenau Gwent ofyniad statudol i weithio yn unol â **ysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg** a gyhoeddir gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Cyfrifoldeb yr holl staff yw ystyried y Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Felly, er bod ystyried a chynnwys yr iaith yn llinyn cyson drwy weithgarwch beunyddiol y Cyngor isod, ceir sawl enghraifft o sut yr ydym wedi atgyfnerthu cydymffurfiad dros y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â'n darpariaeth gwasanaeth, polisi a safonau gweithredu.

## 2.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau

### Safonau 1-7
### Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Rhaid i bob cyfrif e-bost sy'n gorffen @blaenau-gwent.gov.uk gynnwys datganiad yn nodi ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a sicrwydd na fydd yn arwain at oedi wrth ymateb.

Mae ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol rheolaidd wedi'u hyrwyddo i sicrhau bod staff yn ymwybodol o gynnwys y datganiad Cymraeg isod yn eu llofnod e-bost:

*Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi yn eich dewis iaith, dim ond i chi rhoi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.*

*The Council welcomes correspondence in Welsh and English and we will communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.*

*Blaenau Gwent - lle sy'n deg, agored a chroesawgar i bawb drwy weitho gyda a thros ein cymunedau:*
*Blaenau Gwent - a place that is fair, open and welcoming to all by working with and for our communities*

Ymhellach, ehangwyd mynediad staff i flwch post cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol i'r rhai sy'n dymuno gohebu â'r Cyngor yn Gymraeg.

# Bodloni ein Safonau'r Gymraeg

## Safonau 8-22
## Galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff

Ers ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf, rydym wedi parhau i adolygu ein gweithdrefn ffôn Gymraeg gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan ein Rheolwr Gwasanaeth Profiadau Cwsmeriaid. Er enghraifft, tra bod y canllawiau i staff yn cynnwys ffeiliau sain i gynorthwyo staff, â gallu siarad Cymraeg is, gydag ynganu ymadroddion allweddol (fersiwn a adroddir yn araf i bwysleisio synau ac ynganiad allweddol; y frawddeg ar gyflymder arferol) teimlwyd bod rhai o'r geiriau yn dal i fod yn heriol i rai staff. Felly, mae newidiadau wedi'u gwneud i sicrhau bod ymadroddion mwy syml yn cael eu cynnwys. Ymhellach, mae hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff sy'n delio â chwsmeriaid wedi'i drefnu, am ragor o fanylion gweler Adran 5 'Darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg'.

## Safonau 64-68
## Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Mae Safonau 64-68 yn gosod y gofynion ynghylch arddangos arwydd a gwisgo bathodynnau yn y dderbynfa i'w gwneud yn glir bod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa a bod staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Ym mis Mehefin, ymgymerwyd â hunanasesiadau gan Reolwyr Cyfleusterau ynghylch cydymffurfiaeth ac i adolygu unrhyw feysydd i'w gwella. Canlyniad hyn oedd bod Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg ar draws holl dderbynfeydd adeiladau'r Cyngor ac o fewn ein Hybiau Cymunedol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, gwell arwyddion i hyrwyddo ein gwasanaeth Cymraeg a staff derbynfa i wisgo naill ai'r bathodyn siaradwr Cymraeg neu laniardau dysgu Cymraeg.

Mae ein derbynnydd yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Sian (yn y llun isod) yn ddysgwr ymroddgar sy'n ymarfer yn aml eiriau ac ymadroddion sy'n angenrheidiol ar gyfer derbyn ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg.




Dysgais ychydig o Gymraeg i ddechrau oherwydd ar yr ychydig achlysuron pan ddaeth rhywun Cymraeg i mewn i'r Dderbynfa roeddwn yn teimlo cywilydd na wyddwn unrhyw eirfa Cymraeg o gwbl, dim hyd yn oed cyfarchiad syml. Pan ddaeth Safonau'r Gymraeg i'w lle penderfynais wneud cwrs 10 wythnos. Byddwn yn awr yn teimlo'n hyderus i gael rhyngweithio cyfyngedig wrth symud ymlaen os bydd rhywun sy'n siarad Cymraeg yn ymweld â'r adeilad.

## Hyrwyddo'r defnydd o Laniardau a Bathodynnau Cynnig Rhagweithiol

Rhannwyd y poster arno dudalen 10 gyda phob maes gwasanaeth a chynigir laniardau a bathodynnau am ddim i staff sy'n dynodi eu bod yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg.

Hefyd, er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd ar-lein a gynhelir naill ai'n fewnol neu'n allanol mae cefndiroedd Microsoft Teams wedi'u darparu i staff sy'n dymuno nodi bod ganddynt allu yn y Gymraeg. Mae'r templedi isod ar gael i'r holl staff drwy'r fewnrwyd.








Siarad Cymraeg
Speak Welsh

Cymraeg

DW I'N DYSGU CYMRAEG

# Bathodynnau a laniardau ar gyfer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar gael i bob aelod o staff!

## Mynnwch eich un chi o'r dderbynfa yn Anvil Court a'r Swyddfeydd Cyffredinol!



**Gellir gweld cefndiroedd Teams sy'n dangos eich bod yn siarad Cymraeg, neu'n dysgu, ar y dudalen Gymraeg ar y Fewnrwyd.**

I gael hyfforddiant iaith Gymraeg am ddim cysylltwch â Katherine.watkins-hughes@blaenau-gwent.gov.uk

## Ysgol Gynradd Beaufort Hill – 'Helpwr y Dydd'

Aeth yr hyrwyddiad laniardau hefyd i holl ysgolion Blaenau Gwent. Ysgogodd hyn ymgysylltiad gan yr arweinydd Cymraeg yn Ysgol Gynradd Beaufort Hill i ddefnyddio'r laniardau fel rhan o gynllun 'Helpwr y Dydd'.

Y cynllun 'Helpwr y Dydd' yw lle mae disgybl yn cael ei ddewis bob dydd fel Pencampwr y Gymraeg i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio. Mae 'Helpwr y Dydd' yn gyfrifol am fodelu'r defnydd o'r Gymraeg drwy hybu cymal Cymraeg yr wythnos, ysgrifennu'r dyddiad a'r tywydd yn Gymraeg ar ddechrau'r dosbarth a defnyddio'r iaith yn gyffredinol gyda staff a myfyrwyr.



## 2.2 2.2 Safonau llunio polisis

### Safon 88 – 97 Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg

### Asesiad Effaith Integredig


Mae Safon 88 yn nodi bod yn rhaid i gorff ystyried pa effeithiau, os o gwbl (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i gorff ystyried yr effeithiau pan fydd yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n diwygio polisi sy'n bodoli eisoes.

Mae angen Asesiad Effaith Integredig (AEI) ar gyfer holl benderfyniadau'r Cyngor, adolygiadau polisi neu ddatblygiadau polisi newydd. Mae'r AEI wedi'i adolygu ac mae'n cynnwys ystyriaeth o reoliadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i warantu ystyriaeth effeithiol o'r Gymraeg.

## 2.3 Safonau gweithredu

### Mae Safonau 99-104 ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff

Pan gynigir swydd newydd i unigolyn, nodir ei ddewis gohebiaeth ar gyfer y contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau ar iTrent gan Datblygu Sefydliadol. Mae iTrent yn blatfform a chronfa ddata ar-lein ar gyfer gwybodaeth gweithlu (e.e., gwybodaeth sensitif yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 yn ogystal â siarad, deall, gwrando a darllen Cymraeg. listening, and reading.




Ar hyn o bryd mae 19 aelod o staff sy'n dymuno derbyn eu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o 14 aelod o staff ers y cyfnod adrodd diwethaf i ddatgelu'r Gymraeg fel eu prif iaith sy'n dangos tuedd gadarnhaol yn nifer y staff sy'n cofleidio'r iaith.

## Safon 136 – Safonau ynghylch Recriwtio a Phenodi

Mae'n ofynnol i reolwyr gwblhau ffurflen Asesiad Swydd Sgiliau Iaith Gymraeg wrth recriwtio ar gyfer swydd newydd neu wag. Mae'r wybodaeth hon yn siapio'r swydd-ddisgrifiad, yr archeb am hysbyseb, y drefn gyfweld ac unrhyw gyflogaeth wedi hynny. Polisi'r Cyngor yw bod yn rhaid i bob swydd a hysbysebir yn fewnol ac yn allanol nodi'r Gymraeg fel sgil 'dymunol' fel gofyniad sylfaenol. O'r herwydd mae pob un o'r 335 o swyddi a hysbysebwyd yn y cyfnod adrodd hwn wedi nodi'r Gymraeg fel sgil 'dymunol'.

Er mai dim ond un swydd a hysbysebwyd lle'r oedd y Gymraeg yn 'hanfodol', mae swydd y Swyddog Cefnogi'r Gymraeg ei hun yn allweddol i sicrhau defnydd, hyrwyddiad a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol diwethaf, roedd y Tîm Polisi a Phartneriaethau wedi cymryd rhan yn llwyddiannus yn rhaglen brentisiaeth Kickstart i greu rôl Swyddog Cefnogi'r Gymraeg dan Hyfforddiant. Arweiniodd y brentisiaeth hon at yr aelod o staff yn sicrhau cyflogaeth cyfnod penodol yn y Tîm Cofrestru Etholiadol ar ôl ei gwblhau. Eleni sicrhawyd cyllid pellach i ymestyn rôl Swyddog Cefnogi'r Gymraeg am 12 mis pellach.

Mae'r polisi recriwtio yn destun adolygiad o'r dechrau i'r diwedd fel rhan o Gynllun Gweithredu CS092 a gwmpesir yn Adran 3.

## 2.4 Cyrraedd ein Safonau Hybu / Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27

Mae Safon 145 yn datgan bod yn rhaid i bob awdurdod lleol lunio strategaeth yn nodi sut y mae'n bwriadu hybu'r Gymraeg bob pum mlynedd. Cyhoeddwyd ein hail **Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27** yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ac mae'n canolbwyntio ar y tri amcan strategol a ganlyn:

**Amcan 1 – Teulu a Chymuned** - 'Gan weithio gyda'n partneriaid byddwn yn hybu ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a'r gymuned.'

**Amcan 2 – Plant a Phobl Ifanc** - 'Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc'

**Amcan 3 – Cymraeg yn y Gweithle** - 'Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle'

**Ein Targed**
O fewn y strategaeth hybu mae'n rhaid i'r cyngor osod targed, mae Blaenau Gwent wedi alinio ei darged gyda strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 y Llywodraeth.
Nododd Cyfrifiad 2021 fod 4,035 o siaradwyr Cymraeg yn byw ym Mlaenau Gwent, sy'n cyfateb i 6.2% o'i phoblogaeth.

# Bodloni ein Safonau'r Gymraeg

Er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr yn y 28 mlynedd nesaf byddai angen cynnydd o 46% ym Mlaenau Gwent. Mae 46% yn 1,856 o siaradwyr ychwanegol, sy'n cyfateb i 66 o siaradwyr ychwanegol yn flynyddol.

Isod mae rhai enghreifftiau o waith sydd wedi digwydd eleni sy'n bwydo i mewn i amcanion y Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

## Amcan 1

Mae Amcan 1 o'r strategaeth yn canolbwyntio ar hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd a chymuned trwy weithio gyda'n partneriaid.

Fel y nodwyd yn Adran 1.2 'Llywodraethu ac Atebolrwydd' yr adroddiad hwn, mae Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent wedi'i ailsefydlu i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys ein sefydliadau partner a chynrychiolwyr meysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn chwarterol i rannu arfer gorau a monitro cynnydd Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32 a Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i gyflawni Amcan 1. Isod mae tair enghraifft o'r hyn y mae partneriaid Cymraeg lleol wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd i'w gefnogi.

## Mudiad Meithrin

Wedi'i sefydlu yn 1971 mae **Mudiad Meithrin** yn fudiad gwirfoddol sy'n frwd dros ddathlu ac annog defnydd o'r Gymraeg. Mae'r mudiad yn cynnig nifer o brofiadau chwarae a dysgu cyfrwng Cymraeg i blant o enedigaeth i oed ysgol.

Mae Cylch Meithrin Brynithel wedi cynnal cyfres o weithgareddau gyda theuluoedd eleni i ennyn diddordeb yn y Gymraeg ac Addysg Gymraeg gan gynnwys cyrsiau Cymraeg i rieni; Sioe Martyn Geraint yn Theatr Metropole Abertyleri a thrip am ddim i Ŵyl Dewin a Doti

Ym mis Gorffennaf 2022 gan weithio gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Helyg ym Mlaenau Gwent cyhoeddodd Mudiad Meithrin fideo ynglŷn â chludiant i'r ysgol.

Mae'r fideo 'Fy nhaith i'r Ysgol' yn dangos y daith i blant lleol ar fws i'r ysgol, sydd â'r nod o dawelu meddwl rhieni sydd wedi bod yn poeni am anfon eu plant ifanc ar fws i deithio i'r ysgol. Hyrwyddwyd y fideo ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor ac fe'i defnyddir i annog teuluoedd sy'n anfon eu plant i Gylch Meithrin Brynithel i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg drwy eu hanfon i'r Ysgol Gymraeg leol hon ar ôl iddynt adael y cylch.


## Menter Iaith

Sefydlwyd y Fenter Iaith yn 2007 gan ei gwneud yn un o'r Mentrau Iaith ieuengaf, neu Fentrau Iaith ymhlith y 22 sy'n bodoli ar draws Cymru. Mae'r Fenter yn gwasanaethu tair sir – Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy (BGTM)

Sefydlwyd y 'Mentrau Iaith' i drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau i bobl o bob oed, cefndir, a gallu ieithyddol fwynhau a chymdeithasu yn y Gymraeg gan gynnwys rhieni, teuluoedd, plant a phobl ifanc, oedolion, a dysgwyr.

Mae Menter Iaith BGTM wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Isod mae rhai enghreifftiau:










## Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin

Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn sefydliad nid er elw sy'n darparu gwasanaethau hamdden, dysgu a diwylliannol ar draws Blaenau Gwent. Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg a chyrsiau i ddysgu Cymraeg i oedolion.

Yn gyffrous yn ystod eu 'Haf o Hwyl' cyflwynodd yr awdur o Gymru, Huw Davies, weithdai ysgrifennu am ddim a sesiynau adrodd storïau yn llyfrgelloedd Tredegar ac Abertyleri fel y llun isod:









## Amcan 2

Nod yr ail amcan yn y Strategaeth Hybu'r Gymraeg yw cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau dysgu anffurfiol i blant a phobl ifanc. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32 yn cyd-fynd â chyflawni Amcan 2. Gweler Adran 2.5 yr adroddiad hwn am ragor o wybodaeth am y cynllun a'i gynnydd yn ystod y cyfnod adrodd. Isod mae rhai enghreifftiau o waith a gyflawnwyd gan Barth Dysgu Blaenau Gwent Coleg Gwent sydd wedi cyfrannu at Amcan 2 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Ymgorffori'r iaith mewn cyrsiau ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent – Coleg Gwent

Mae Hwylusydd y Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngholeg Gwent wedi bod yn gweithio gyda myfyrwyr Lefel 2 a 3 i ddatblygu eu gallu a'u hyder yn y Gymraeg. Mae'r Gymraeg wedi'i hymgorffori i gynnwys cyffredinol y cwrs yn ogystal â chynnal sesiynau ar y Fframwaith Mwy Na Geiriau (gweler amcan 3 am ragor o wybodaeth). Hefyd, mae Pennaeth y Gymraeg Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi mynychu'r coleg i gyflwyno sesiynau ar bwysigrwydd a strwythur gweithredu Mwy Na Geiriau. Isod mae rhai lluniau o waith caled y myfyrwyr yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Dydd Gŵyl Dewi yng Ngholeg Gwent

Yn ogystal â gwaith o fewn y dosbarth mae Coleg Gwent hefyd wedi cynnal digwyddiadau Cymraeg megis Ffair Dydd Gŵyl Dewi. Roedd hyn yn cynnwys chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn yr awditoriwm ar Dydd Miwsig Cymru. Mae digwyddiadau fel hyn yn rhoi cyfle i lysgenhadon Cymraeg y colegau helpu yn ogystal â chodi proffil y Gymraeg ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg i fyfyrwyr sy'n mynychu'r coleg.





# Bodloni ein Safonau'r Gymraeg

## Amcan 3

Nod Amcan 3 yw cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae hyfforddiant iaith Gymraeg yn agwedd allweddol ar helpu i gyflawni Amcan 3. Mae cyfleoedd i ddysgu Cymraeg wedi cael eu hybu'n helaeth yn ystod y 12 mis diwethaf fel y manylir yn adran 5 o'r adroddiad hwn.

Fel y gwelir yn Adran 2 o'r adroddiad hwn eleni, rydym wedi cymryd nifer o fesurau ychwanegol i sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yn y gweithle er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i ddefnyddio'r iaith.

Cynhelir adolygiadau a diweddariadau rheolaidd o'r canllawiau iaith Gymraeg sydd ar gael i'r holl staff ar y fewnrwyd drwy gydol y flwyddyn. Hyrwyddir posteri, GIFS a fideos cyson ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i'r holl staff. Fel y gwelir isod mae logo a thema wedi eu datblygu gan yr adran graffeg sydd wedi dod yn gyfystyr â nodiadau atgoffa o arfer safonol sy'n berthnasol i holl staff y Cyngor.












## Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru 2022/27

Mae ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg hefyd yn nodi ein hymrwymiadau yn erbyn Strategaeth Mwy na Geiriau 2022/27 Llywodraeth Cymru, Cynllun Mwy Na Geiriau 2022/27 ac mae'n canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae Mwy na Geiriau 2022/27 Llywodraeth Cymru yn gynllun iaith Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sydd â'r nod o sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gofal y maent yn ei haeddu a'i angen yn eu dewis iaith. Ei nod yw gwella a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ar draws pob lleoliad iechyd. Ei nod yw gwella canlyniadau llesiant i unigolion yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan God Ymarfer y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys o fewn cynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddynt orfod gofyn amdano fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Rhagweithiol'. Er enghraifft, cymryd camau i gynyddu sgiliau Cymraeg staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i wella ein gwasanaethau Cymraeg.

Mae adnoddau mwy na geiriau ynghyd â chyrsiau Dysgu Cymraeg fel y gwelir isod wedi'u cynnwys ym mwletin wythnosol gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Blaenau Gwent. Mae sesiynau ymwybyddiaeth pellach yn cael eu comisiynu fel rhan o raglen waith 2023/24.

**Mwy na geiriau More than just words**

Resources available:

Using Welsh at work | Social Care Wales

Understanding language needs | Social Care Wales

Plus sign up to a free Welsh taster course

SHORT ONLINE TASTER COURSES | Learn Welsh

Mwy na geiriau.... More than just words....


## 2.5 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022/32

**Mae amcan dau Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn datgan:**

**"Cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gweithgareddau anffurfiol i blant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith".**

Cymeradwywyd Cynllun Strategol 10 Mlynedd Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent 2022-2032 ym mis Gorffennaf 2022 gan Weinidogion Cymru i'w roi ar waith ym mis Medi 2022. Mae'r cynllun wedi'i alinio'n uniongyrchol â fframweithiau strategol Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r Cyngor. Gellir crynhoi'r blaenoriaethau strategol a amlygwyd yn y ddogfen 10 mlynedd WESP fel a ganlyn:

- Codi proffil a lefelau cyfranogiad ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol 11% erbyn 2032 i gyfrannu at y weledigaeth o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Cynyddu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i ysgogi galw rhieni i alluogi twf ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Parhau i gynyddu cyfraddau trosglwyddo o ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i Ysgol Gymraeg Bro Helyg.
- Agor darpariaeth Gynradd cyfrwng Cymraeg Eginblanhigyn yn Sirhywi Tredegar ar Rhodfa'r Siartwyr ar gyfer Medi 2024 gyda Disgyblion Meithrin a Derbyn yn cael eu derbyn ym Medi 2023 ar safle ysgol dros dro yn Nhŷ Bedwellty.
- Gweithio'n rhanbarthol gydag Awdurdodau Lleol De-ddwyrain Cymru i sicrhau lleoedd i ddysgwyr Blaenau Gwent mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- Gwella deilliannau dysgwyr cyfrwng Cymraeg fel bod dysgwyr yn codi dyheadau a gwella eu cyfleoedd bywyd.



Daeth Cynllun Strategol 10 mlynedd WESP Blaenau Gwent i rym ym mis Medi 2022 gyda Chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Mae Blaenau Gwent wedi gallu gosod targedau uchelgeisiol ond realistig ar gyfer y datblygiadau tymor byr, canolig a hir. Ochr yn ochr ag adolygiad o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae strwythur Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent, aelodaeth a dogfennaeth gysylltiedig yn cael eu hadolygu a'u cryfhau'n flynyddol, mae ffurflen fonitro a chynllun cyflawni cadarn i gefnogi llwyddiant hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, megis y posteri isod sy'n cael eu harddangos yn y Ganolfan Plant Integredig yn egluro taith addysg cyfrwng Cymraeg.







## Fforwm Cymraeg mewn Addysg




Mae cyfarfodydd Fforwm Cymraeg mewn Addysg bellach yn dymhorol a chyfeiriwyd atynt gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr fel arfer da gyda gwaith partneriaeth cryf. Mae gweithdai pwrpasol hefyd ar gynlluniau Cyfathrebu a chanlyniadau Is-grwpiau yn unol â chynllun 10 mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r cynlluniau Cyfathrebu hyn yn cynnwys gweithio ar y cyd ag Ymwelwyr Iechyd a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) y Cyngor. Mae Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg yn gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru, maent yn annog plant i fynychu gofal plant Dechrau'n Deg ac yn hysbysu rhieni am argaeledd gofal plant Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Anfonir copi caled o'r **'Llyfryn Gwybodaeth Ysgolion ar gyfer Rhieni/Gofalwyr'** o'r GGD i bob rhiant ym Mlaenau Gwent yn y misoedd cyn i'r broses dderbyn agor, o fewn y llyfryn addysg cyfrwng Cymraeg hefyd fel lleoliadau meithrin blynyddoedd cynnar fel Mudiad Meithrin. Mae'r llyfryn hefyd yn mynd i'r afael â phryderon gallu rhieni di-Gymraeg i gefnogi eu plentyn trwy eu haddysg.

## Effaith Fforwm Cymraeg Mewn Addysg

Gwnaeth partneriaid sylwadau ar effeithiolrwydd y Fforwm, sydd yn ei dro wedi cael effaith gadarnhaol ar aelodaeth, presenoldeb a chanlyniadau. Yn ogystal, y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Trawsnewid Addysg a Newid Busnes yw cadeirydd Is-grŵp Rhanbarthol Cynllunio Lleoedd Ysgol a Galw Fforwm Strategol WEF. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn ystyried y meysydd gwaith a ganlyn:

- Datblygu Strategaeth Hybu a Chyfathrebu Rhanbarthol
- Monitro'r Galw am Leoedd Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r nifer sy'n manteisio arnynt
- Adolygiad Rhanbarthol o Ddarpariaeth Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
- Grant Cyfrwng Cymraeg a Chynigion a Phrosiectau Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei dudalennau gwe i hysbysu'r gymuned ehangach o fanteision bod yn Ddwyieithog i gefnogi llyfryn cydweithredol WEF o'r enw 'Bod yn Ddwyieithog' sy'n hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a Saesneg.



Adolygir y ddogfen yn flynyddol a'i rhannu gyda theuluoedd darpar ddisgyblion. Mae'r llyfryn hefyd yn gysylltiedig â'r broses derbyniadau ac yn cael ei rannu â gweithwyr iechyd proffesiynol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, a phartneriaid a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, i hyrwyddo cyfleoedd ac addysg Gymraeg yn lleol.


Cafodd hunanasesiad Blaenau Gwent 2021-22 yn erbyn cynnydd allweddol ei gynnal yn Ambr, gyda chyfradd cwblhau yn erbyn cynllun gweithredu 2021-22 fel a ganlyn:

• 84% (neu 49 o gamau gweithredu) wedi'u cwblhau
• 7% (neu 4 cam) yn parhau; a,
• 9% (5 cam) o gamau gweithredu yn cael eu datblygu

Mae angen rheolaeth a monitro parhaus i sicrhau bod y cynllun a'r targedau yn adlewyrchu'r angen, a bod yr amcanion allweddol yn cael eu cyflawni o fewn cyfnod pob cynllun cyflawni. Mae 5 o'r prif gyflawniadau yn y sesiwn academaidd ddiwethaf yn cynnwys:

1. Mae Blaenau Gwent wedi cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ailfodelu yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn nhymor yr Hydref 2022. Mae'r tîm trawsnewid addysg yn aros am ddyddiad agor swyddogol gan Weinidogion sydd wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mai 2023. Yn ogystal, mae Addysg yn bwrw ymlaen â phrosiect i greu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg â 210 o leoedd a chyfleuster gofal plant cysylltiedig o fewn cwm Tredegar/Sirhywi ym mis Medi 2024. Bydd hwn ar agor i ddisgyblion oed Meithrin a Derbyn ar gyfer mis Medi 2023 dros dro yn lleoliad Tŷ Bedwellte am y flwyddyn gyntaf hyd nes y bydd yr ysgol wedi'i chwblhau ym mis Medi 2024.

2. Mae niferoedd y disgyblion ar y gofrestr ynghyd â'r rhai sy'n gwneud cais am le yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg wedi parhau i gynyddu, gyda thuedd gadarnhaol wedi'i nodi dros y 3 blynedd diwethaf mewn perthynas â niferoedd disgyblion meithrin a derbyn. Yn ogystal, roedd cyfraddau trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd ar gyfer 2019/20 yn 100%.






# Bodloni ein Safonau'r Gymraeg

3. Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cryf, gan dargedu a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog, tra hefyd yn sefydlu dulliau priodol o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn llywio blaenoriaethau strategol allweddol. Drwy gydol Rhagfyr 2022 a dechrau Ionawr 2023, lansiwyd ymgyrch bost dorfol a welodd dros 36,000 o nodwyr tudalen (fel y gwelir isod) yn cael eu dosbarthu i bob cartref ym Mlaenau Gwent gan hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog a'r ddarpariaeth eginblanhigyn newydd yn Sirhywi Tredegar.

4. Mae cynrychiolaeth partneriaid, presenoldeb ac amlder Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent yn parhau i fod yn gryf, gyda phartneriaid wedi ymrwymo'n gadarn i ac yn cydnabod effeithiolrwydd Fforwm Blaenau Gwent. Mae partneriaid wedi canmol gwaith Fforwm Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent fel enghraifft o arfer da. Hefyd, mae Is-grŵp WESP yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i gefnogi cynigion ar gyfer twf a datblygiad ar sail ranbarthol ac eto, i lywio cynllunio strategol.

5. Mae ffigyrau cyrsiau Cymraeg y Cynllun Sabothol yn cynyddu'n flynyddol gyda staff ysgolion yn mynychu cyrsiau yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gan ddangos ymrwymiad parhaus i'r Gymraeg.

## Cynllun Strategol 10 Mlynedd Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent

Mae Gweledigaeth Cyngor Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

**'Adeiladu ar y cynnydd cryf a wnaed hyd yma, drwy greu system addysg gynaliadwy sy'n gwella'r ddarpariaeth, y nifer sy'n manteisio ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni; creu dinasyddion medrus a grymus sy'n falch o fyw a gweithio yng Nghymru a thu hwnt'.**

Y nod strategol fydd creu:

'Cymuned sy'n cofleidio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig gyda hyder a balchder'. Byddwn yn ceisio gwireddu ein gweledigaeth drwy hyrwyddo, datblygu a gwella darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gwneud hynny drwy gydweithio'n agos â'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg, ynghyd â phartneriaid

- Codi proffil addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â manteision bod yn ddwyieithog.
- Creu sefydliadau dysgu ffyniannus o ansawdd uchel sy'n cefnogi ymgysylltiad effeithiol gan ddisgyblion, staff, y gymuned a phartneriaid.
- Cefnogi integreiddio gwasanaethau a chreu profiad trochi i ddysgwyr.
- Sicrhau gwaith ysgol i ysgol a phartneriaeth gwell, gan hwyluso defnydd ehangach a datblygiad o'r iaith Gymraeg.
- Creu gweithlu medrus a chynaliadwy, sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Sicrhau amgylcheddau addysgu a dysgu cynhwysol a chyfleoedd i bob dysgwr; a
- Gwella cyfleoedd dilyniant trwy adolygu a gweithredu cwricwlwm sydd wedi'i alinio'n gadarn ag addysg bellach ac uwch.

# Bodloni ein Safonau'r Gymraeg

Mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni'r canlyniadau canlynol fel y'u hamlinellir gan Lywodraeth Cymru, sy'n adlewyrchu taith addysg y dysgwr, ac sy'n gyson â meysydd polisi **Cymraeg 2050** ac **Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl**

**Canlyniad 1**
Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Canlyniad 2**
Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Canlyniad 3**
Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall.

**Canlyniad 4**
Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Canlyniad 5**
Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.

**Canlyniad 6**
Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.**

**Canlyniad 7**
Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi ymrwymo i weithio tuag at darged uchelgeisiol Llywodraeth Cymru, sef cynyddu'r garfan Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg i 75 o ddisgyblion. O'i gymharu â data gwaelodlin 2019/20 a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, byddai hyn yn cyfateb i 10% (cynnydd o 6 pwynt canran) o gyfanswm carfan Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.

## Grant Trochi

Mae addysg, mewn partneriaeth â chontractwr arbenigol, yr ysgol a Llywodraeth Cymru, wedi datblygu darpariaeth drochi bwrpasol yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, i ddarparu ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd cynllun peilot 2021/22 yn llwyddiant ac estynnodd Llywodraeth Cymru y rhaglen am 3 blynedd arall gan wahodd Awdurdodau Lleol i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb. Sicrhaodd Blaenau Gwent gyllid ychwanegol ar gyfer athro dosbarth am 3 blynedd gyda rhywfaint o wariant cyfalaf bach i hyrwyddo trochi dros Ysgol Gymraeg Bro Helyg ac ysgol eginblanhigyn yn Sirhywi, Tredegar.

Yn unol â chyflawni'r prosiect bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos i gymharu modelau darpariaeth drochi, nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau, tra hefyd yn mesur a datblygu arfer gorau. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun cyfathrebu a hyrwyddo gan weithio mewn partneriaeth â WEF Blaenau Gwent, gan gefnogi gweithredu'r ddarpariaeth newydd yn unol â WESP Blaenau Gwent.

Yn ogystal, mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn cynllunio ar gyfer gweithredu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig ar gyfer hyd at 15 o ddisgyblion ADY, yn amodol ar ymgynghoriad. Fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gall y Cyngor ddarparu gwariant cyfalaf yn 2023/24 er mwyn galluogi ystafell ddosbarth i gael ei throsi'n ganolfan adnoddau i gefnogi cyfeiriad ADY ehangach o ddarparu cymorth ADY i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn 2024.

## 3.0 Cwynion gan y cyhoedd

### Gweithdrefn Canmoliaeth a Chwynion Corfforaethol

Mae'r weithdrefn **Canmoliaeth a Chwynion Corfforaethol** ar gael i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac fe'i defnyddir i'n helpu i nodi a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i'r gwasanaeth. Mae'r drefn yn darparu gwybodaeth ar sut y gall pobl gyfeirio cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ogystal â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Gellir gwneud cwynion mewn unrhyw fformat (e.e., e-bost, llythyr, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, cyfryngau cymdeithasol ac ati).

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, derbyniwyd cyfanswm o 0 cwyn trwy Ganmoliaeth a Chwynion Corfforaethol ynghylch safonau darparu gwasanaethau; safonau llunio polisi; neu safonau gweithredu.

### Ymchwiliad Cydymffurfiaeth Safonol CS092

Agorodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad CS092 ym mis Tachwedd 2021 yn dilyn pryderon a godwyd wrth asesu cydymffurfiaeth Cyngor Blaenau Gwent â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â gwasanaeth ffôn.

Roedd yr ymateb cychwynnol a ddarparwyd gan y Cyngor yn codi pryderon pellach ynghylch cydymffurfiaeth safonol a oedd yn ehangu'r cylch gorchwyl. Roedd y cylch gorchwyl yn cynnwys hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, asesu sgiliau iaith staff, darparu cyfleoedd hyfforddi a'r prosesau recriwtio yn ymwneud â'r sgiliau iaith angenrheidiol.

Ym mis Medi 2022, rhoddodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg benderfyniad terfynol i'r Cyngor sy'n amlinellu'r camau sydd eu hangen i gyrraedd y cydymffurfiad safonol a'r amserlenni cyflawni disgwyliedig. Roedd yr hysbysiad penderfynu hwn hefyd yn gofyn i'r Cyngor greu Cynllun Gweithredu sy'n nodi'r camau hyn ac yn pennu amserlenni ac atebolrwydd.

Gwnaeth Tîm Arwain y Cyngor y penderfyniad i sefydlu 'Grŵp Swyddogion Craidd CS092' ar draws y sefydliad i gefnogi'r Tîm Polisi i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a'i gyflawni wedi hynny.

**Mae'r grŵp yn gyfrifol am:**

- Cynnal adolygiad gwreiddyn a changen o'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau Darparu Gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys o fewn yr ymchwiliad.
- Paratoi cynllun ar gyfer sut y bydd y sefydliad yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol ar draws y sefydliad.
- Adnabod gofynion adnoddau dynol ar sut mae'r Cyngor yn mynd i sicrhau adnoddau digonol i gydymffurfio â'r Safonau Ffôn.
- Cynyddu lefel y ddealltwriaeth ar draws y sefydliad o ofynion y safonau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad (gan gyfeirio at yr asesiad sgiliau iaith, hyfforddiant iaith Gymraeg ac asesu anghenion ieithyddol swyddi).
- Paratoi, datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu CS092 wedi hynny.

Cynhaliwyd sawl cyfarfod ar-lein fel grŵp i drafod gofynion yr ymchwiliad ac i ddatblygu Cynllun Gweithredu drafft. Ategwyd hyn gan gyfarfodydd unigol pellach rhwng yr Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg, Swyddog Cefnogi'r Gymraeg, ac Arweinwyr Gweithredu i gwblhau manylion allweddol y cynllun drafft.

Crëwyd Sianel Microsoft Teams er mwyn i'r Grŵp Swyddogion Craidd allu rhannu ffeiliau, gwybodaeth a darparu diweddariadau cynnydd yn rheolaidd yn ogystal â chefnogi gwaith gweithredu rhagarweiniol.

Cyflwynodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Ionawr 2023.

Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu CS092 ym mis Mawrth 2023 ac mae'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd a disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2024.

## Ymweliad Monitro Blynyddol Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg - Mawrth 2023

Bob blwyddyn mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn canolbwyntio ar sawl maes o gydymffurfiaeth â'r Gymraeg ac yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Cyngor, ynghyd â nodi meysydd i'w gwella.

Canmolodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y Cyngor am eu gwaith yn ymwneud â'r ymchwiliad diweddar a'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Gwybodaeth am y wefan (Safon 49, 52 a 56)
- Postiadau cyfryngau cymdeithasol (Safon 48)
- Gofyniad i ddatblygu Polisi Iaith Gymraeg Mewnol (Safon 98)

**Safonau a godwyd yn ystod y monitro:**
**Safon 49**
Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

**Safon 52**
Rhaid i chi sicrhau –
(a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac
(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

**Safon 56**
Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'ch gwefan yn Gymraeg.

**Safon 58**
Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 98**
Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddiben hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.

**Camau a gymerwyd o fewn cyfnod yr adroddiad i fynd i'r afael â'r materion a godwyd:**
**Safon 49**
Anfonwyd y poster canlynol at yr holl staff i sicrhau bod yn rhaid i ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys y datganiad swyddogol y mae'n rhaid ei ddefnyddio.

Siarad Cymraeg
Speak Welsh

Safon 49

# Datganiad Iaith Gymraeg ar ddogfennau

## Rhaid i fersiynau Saesneg o ddogfennau y trefnir eu bod ar gael i'r cyhoedd gynnwys datganiad eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg.

## Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r datganiad sydd ar gael o dan 'Canllawiau Cymraeg' ar y Fewnrwyd.

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

# Cwynion


**Safon 52, 56 a 58**
Mae’r tîm Cyfathrebu wedi diwygio’r holl dudalennau gwe nad ydynt yn cydymffurfio â safonau’r Gymraeg. Bydd cynnwys y we yn cael ei fonitro’n rheolaidd i sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg ar wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

**Safon 98**
Dechreuwyd drafftio’r polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol ym mis Mawrth, ac mae’n cael ei ystyried wrth gwblhau’r camau gweithredu o fewn Cynllun Gweithredu Ymchwiliad CS092. Bydd y polisi’n parhau i gael ei adolygu ar ôl ei gyhoeddi i sicrhau bod yr holl gynnwys yn gyfredol ag unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â gweithrediadau mewnol y Cyngor (h.y. prosesau recriwtio, polisi hyfforddiant ôl-fynediad ac ati).

Siarad Cymraeg
Speak Welsh


# A yw eich gwybodaeth iTrent yn gyfredol?

## Dywedwch wrthym am eich sgiliau Cymraeg.




1) Mewngofnodwch i iTrent. Cliciwch ar 'View Profile'.

2) Cliciwch ar 'Sensitive Information'.







3) Llenwch eich sgiliau Cymraeg.

4) Peidiwch ag anghofio clicio 'Save'.



## 4.0 Sgiliau iaith staff

Rhaid i bob cyngor gadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg ei staff o dan Safon 127. Mae Cyngor Blaenau Gwent yn cofnodi hyn drwy ein platfform adnoddau dynol, iTrent. Sicrheir bod yr holl staff yn ymwybodol bod angen iddynt gwblhau hunanasesiad sgiliau iaith Gymraeg pan fyddant yn cael eu cyflogi. Mae nodiadau atgoffa i gadw'r wybodaeth hon yn gyfredol wedi'u hanfon at yr holl staff fel y gwelir isod, yn ogystal â chynnwys nodiadau atgoffa mewn diweddariadau rheolwyr.

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon wedi'i darparu drwy'r Tîm Datblygu Sefydliadol gan ddefnyddio system iTrent y Cyngor ac mae'n cynrychioli gallu staff yn y Gymraeg ar 31 Mawrth 2022.


Y ffigwr sylfaen ar gyfer y data yw 2,959 o staff ar restr sefydliadau'r Cyngor (cynnydd o 20% o gymharu â chofnodion 2021-22).

Ar 31 Mawrth 2023 mae nifer y gweithwyr sydd â sgiliau siarad Cymraeg yn amrywio o 'rhugl', 'eithaf da', 'cymedrol' i 'ychydig' yn 537. Mae hyn yn gynnydd o 67 aelod o staff o'r 470 wedi'u nodi yng nghyfnod adrodd 2021-22.

Mae nifer a chanran y staff sy'n gallu deall, siarad, ysgrifennu, a darllen Cymraeg yn amrywio ychydig rhwng pob cymharydd, a ddangosir yn y graffiau isod:


### Siart 1 – Siarad Cymraeg

| Y gallu i siarad Cymraeg | Nifer y Staff |
|---|---|
| Yn rhugl | 45 |
| Yn eithaf da | 16 |
| Yn gymedrol | 127 |
| Ychydig | 349 |
| Dim gallu | 1,336 |
| Wedi'i adael yn wag | 1,114 |




### Siart 2 – Deall Cymraeg


| Y gallu i ddeall Cymraeg | Nifer y Staff |
|---|---|
| Yn rhugl | 46 |
| Yn eithaf da | 23 |
| Yn gymedrol | 150 |
| Ychydig | 386 |
| Dim gallu | 1,304 |
| Wedi’i adael yn wag | 1,078 |



# Sgiliau iaith staff


### Siart 3 – Ysgrifennu Cymraeg

| Y gallu i ysgrifennu Cymraeg | Nifer y Staff |
|---|---|
| Yn rhugl | 40 |
| Yn eithaf da | 18 |
| Yn gymedrol | 108 |
| Ychydig | 279 |
| Dim Gallu | 1,375 |
| Wedi'i adael yn wag | 1,167 |





### Siart 4 – Darllen Cymraeg

| Y gallu i Ddarllen Cymraeg | Nifer y Staff |
|---|---|
| Yn rhugl | 40 |
| Yn eithaf da | 18 |
| Yn gymedrol | 108 |
| Ychydig | 279 |
| Dim gallu | 1,375 |
| Wedi'i adael yn wag | 1,167 |



**Siaradwyr Cymraeg fesul Cyfarwyddiaeth**
Mae’r siart bar canlynol yn dadansoddi gallu siarad Cymraeg fesul cyfarwyddiaeth.




Mae cyfanswm o 45 aelod o staff yn datgan eu gallu fel yn rhugl yn y Gymraeg o dan sgiliau siarad Cymraeg, sef cynnydd o 11 aelod o staff o gymharu â ffigurau 2021-22. Mae’r cynnydd hwn yn gyson ar draws y Cyngor, gyda ffigurau’n codi ym mhob cyfarwyddiaeth.

| Cyfarwyddiaeth | Nifer y siaradwyr rhugl a enillwyd yn erbyn Adroddiad Blynyddol 2021-22 |
|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol | 1 |
| Addysg | 3 |
| Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol | 4 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 3 |

Fel yr adroddwyd y llynedd mae gan y gyfarwyddiaeth Addysg y nifer uchaf o siaradwyr rhugl gyda 30 aelod o staff wedi ennill 3 siaradwr rhugl arall o’r 27 a adroddwyd yn 2021-22.




# Cyfle Hyfforddiant

## Mae dysgu Cymraeg yn sgil werthfawr.

Cymraeg

## Hoffech chi ddysgu Cymraeg fel rhan o'ch rôl? Neu ydych chi'n hoffi'r syniad o ddysgu ychydig o Gymraeg?

**Mae gan holl weithwyr Blaenau Gwent hawl i dderbyn hyfforddiant am ddim yn ystod oriau gwaith.**

**Siaradwch â'ch rheolwr llinell am y cyrsiau Dysgu Cymraeg / Learn Welsh sydd ar gael heddiw.**

https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cyrsiau-cymraeg-gwaith/cyrsiau-blasu-ar-lein/

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## 5.0 Darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

**Hyfforddiant Staff**
Cyflwynwyd 0 cwrs (ar gael ar-lein) trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod yr opsiwn hwn ar gael i staff os gofynnir amdano.

**Hyfforddiant Iaith Gymraeg**
Hyrwyddir hyfforddiant yn gyson i holl staff Blaenau Gwent gan amlygu i bob maes gwasanaeth y cyfle i dderbyn hyfforddiant Iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith yn unol â Safon 130. Isod mae enghraifft o sut rydym yn hyrwyddo’r safon hon:

Rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn yr ymgysylltu â’r adnoddau ar-lein a hyrwyddwyd gyda 31 aelod ychwanegol o staff yn defnyddio cyrsiau ar-lein Dysgu Cymraeg/Learn Welsh.

**Adborth staff:**

Y rheswm pam y dechreuais y cwrs oedd oherwydd fy mod yn darparu cymorth Datblygu Sefydliadol i’r ysgol cyfrwng Cymraeg ac roeddwn yn meddwl y byddai’n braf cael rhywfaint o sgiliau Cymraeg i allu deall a siarad yn Gymraeg pan fyddaf yno. Fyddwn i byth wedi meddwl dechrau hyn pe na bai wedi cael ei hyrwyddo’n fewnol ac mae cael cymorth i ddysgu yn ystod amser gwaith yn fantais bendant.

Rwy’n gweld yr hyfforddiant yn hawdd i’w ddilyn ac yn hoffi’r ffaith ei fod yn rhoi cyfle i chi adnewyddu eich gwybodaeth cyn iddo ofyn cwestiynau i chi. Rwyf bob amser yn edrych i wella fy sgiliau ac yn teimlo y dylai pob un ohonom gael gwybodaeth sylfaenol yn y Gymraeg gan mai dyna yw ein hiaith.

# Darpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

## Sesiynau dan arweiniad tiwtor ar gyfer staff sy'n delio â chwsmeriaid

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth ffôn gorau i'n preswylwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n cysylltu â'r Cyngor, mae trefniadau wedi eu gwneud i 10 aelod o staff ddechrau cwrs hyfforddi. Bydd y cwrs hwn yn rhedeg o fis Mai 2023 tan Chwefror 2024, gyda chwrdd â thiwtor bron am ddwy awr yr wythnos. Mae'r aelodau staff sy'n mynychu'r sesiynau hyn yn delio gyda galwadau ffôn a wneir i wasanaeth 'Connect 2 Blaenau Gwent' a llinellau ffôn budd-daliadau, a'r rhai sy'n gweithio yn yr Hybiau Cymunedol. Mae'r cwrs hwn yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r Cynllun Cymraeg Gwaith a ddarperir gan **Dysgu Cymraeg**. Bydd y sesiynau hyn yn rhedeg am 35 wythnos gan gronni 70 awr o hyfforddiant, gyda sesiynau personol dros dro yn eu lle ar gyfer wythnosau olaf yr amserlen hyfforddi.



## Y Cynghorydd Sue Edmunds (Aelod Cabinet dros Bobl ac Addysg) – Dysgwr Cymraeg

(Aelod Cabinet dros Bobl ac Addysg)

Wedi byw yng Nghymru ers 30 mlynedd mae'r Cynghorydd Edmunds bob amser wedi mwynhau gwrando ar y Gymraeg ac wedi darganfod yn y blynyddoedd diwethaf ei bod wedi dod yn fwy amlwg yn ei bywyd. Roedd y Cynghorydd Edmunds yn arbennig o awyddus i ddysgu Cymraeg i allu ei defnyddio wrth ymweld ag ysgolion, yn dilyn derbyn yr e-bost a anfonwyd at staff, anogwyd y staff i roi cynnig ar ddefnyddio cyrsiau ar-lein Dysgu Cymraeg/Learn Welsh. Er, oherwydd ei hamserlen brysur, roedd Duolingo yn fwy addas ar gyfer ei hamserlen fel gweithiwr ystwyth, ac mae'n dechrau

Rwy'n gweithio yn y gymuned ac mae'r Gymraeg bob amser yn bresennol. Rwyf am fod yn rhan o hynny, rwyf am allu canu'r Anthem Genedlaethol a chyfarch pobl yn eu hiaith eu hunain er enghraifft. Mae fy mywyd yn brysur iawn felly dyw dosbarthiadau ffurfiol ddim yn siwtio, canfyddais fod Duolingo wir yn gweithio i mi, gallaf dreulio ychydig funudau sawl gwaith y dydd, efallai pan fyddaf yn aros i'r tegell ferwi neu rhwng cyfarfodydd.



## 6.0 Y camau nesaf

Bydd Cyngor Blaenau Gwent yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r dyletswyddau a nodir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn hyrwyddo a chefnogi cydymffurfiaeth â'r safonau ymhellach gyda'r nod o wella ein gwasanaethau Cymraeg yn barhaus.

Fel rhan o'n gwaith yn y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau allweddol canlynol:

- IGweithredu a monitro Strategaeth Hybu'r Gymraeg gan sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio ein partneriaid a rhannu arferion gorau mewn fforymau rheolaidd Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent a rhwydweithiau allanol.
- Cyflawni Cynllun Gweithredu Ymchwiliad CS092.
- Parhau i hyrwyddo cydymffurfiaeth safonol yn fewnol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) Rheoliadau 2015.
- Adolygu a diweddaru gweithrediadau mewnol mewn perthynas â'r Gymraeg yn gyson.
- Hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg ymhellach ymhlith staff ac Aelodau a sicrhau bod staff sy'n ymroddedig i hyfforddiant yn cael eu cefnogi'n llawn

Dros y cyfnod sydd i ddod anelwn at barhau â'n cynnydd, mewn perthynas â chyflawni ein dyletswyddau iaith Gymraeg, a gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
Y Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

**Ffôn:** 01495 311556
**Gwefan:** www.blaenau-gwent.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council